# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-08-08 (p3): 22 Mai 2008

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhestru'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor.  Derbyniwyd llawer o'r wybodaeth ddiweddaraf fel gohebiaeth. Lle mae'n berthnasol, mae copïau o ohebiaeth wedi eu cynnwys fel atodiad PET(3) 08-08 Papur 3A i'r papur hwn.

### (i) P-03-073: Trwyddedau gwaith i nyrsys o dramor

**Geiriad y ddeiseb**

Mae deiseb wedi'i hamgáu i wrthwynebu'r newidiadau ôl-weithredol i'r rheoliadau trwyddedau gwaith a'r hawl i wneud cais i aros yn y DU am gyfnod amhenodol. Rydym yn credu bod hwn yn destun pryder cenedlaethol gan fod cynifer o nyrsys a staff gofal eraill o dramor yn gweithio yn y GIG ac yng nghartrefi gofal Cymru. Byddai'n hwb mawr i'n hachos pe bai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyflwyno sylwadau i'r Swyddfa Gartref ynglŷn â'r mater hwn.

**Deiseb i Achub ein Huwch Ofalwyr o Dramor**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried y canlynol:

Gyda miloedd o bobl sydd â Thrwyddedau Gwaith yn wynebu bygythiad i'w gorfodi nhw a'u teuluoedd i adael y DU, mae'n rhaid gwneud rhywbeth i achub ein huwch ofalwyr o dramor. Fel y nodwyd yn Immigration Matters, mae'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo (BIA) yn gwrthod bron pob cais gan uwch ofalwyr am drwyddedau gwaith. Mae safiad diwyro'r BIA yn effeithio ar weithwyr gofal newydd o dramor a'r rheini sy'n gweithio yn y DU yn barod sydd am adnewyddu eu trwyddedau. Cafodd y rheolau ar breswyliaeth barhaol eu newid yn 2006, pan gafodd y cyfnod cymhwyso gofynnol ei ymestyn o 4 i 5 mlynedd. Mae cartrefi gofal hefyd yn ofni'r gwaethaf, ac yn eu paratoi eu hunain i glywed y newyddion y bydd eu gweithwyr tramor yn cael eu taflu allan o'r wlad fel petaent yn gwbl ddiwerth. A yw hyn yn ffordd deg o drin pobl?

Isod, mae llofnodion nyrsys cymwysedig, uwch ofalwyr, gofalwyr, defnyddwyr gwasanaethau a'u perthnasau a fydd yn ddioddef yn arw os caniateir i reolau newydd y Swyddfa Gartref barhau. Rydym yn eich annog i'n helpu yn ein brwydr i gael adnewyddu trwyddedau gwaith ac i wneud cais am gael aros am gyfnod amhenodol yn y Deyrnas Unedig.

**Cefndir**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 4 Hydref 2007. Cytunodd i ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymchwilio i'r ddeiseb hon ymhellach.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ymateb y Gweinidog ar 21 Chwefror 2008 a chytunodd i ofyn i'r Clerc ymchwilio i weld a allai'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ystyried hyn fel rhan o'i ymchwiliad i weithwyr mudol yng Nghymru.

Wedi trafod y ddeiseb gyda'r Cadeirydd, mae Clerc y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi cadarnhau nad yw'r ddeiseb hon yn dod o fewn cylch gorchwyl yr ymchwiliad.

### (ii) P-03-081 Rheoliadau'n ymwneud ag Astudiaethau Blaenorol

**Geiriad y Ddeiseb**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ychwanegu at y galwedigaethau sydd wedi'u heithrio, a restrir uchod, er mwyn cynnwys unrhyw gwrs gradd i israddedigion sy'n rhagofyniad cyfreithiol, gorfodol i gymhwyso neu gofrestru mewn galwedigaeth benodol. Dyma rai enghreifftiau o gyrsiau o'r fath:

• BSc/Op i gofrestru fel Optometrydd

• MPharmacy i gofrestru fel Fferyllydd

Rydym yn annog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gryf i weithredu'r newidiadau hyn fel mater o flaenoriaeth, gan sicrhau bod y newidiadau'n ôl-weithredol os yw hynny'n bosibl.

**Cefndir**

Mae'r deisebwyr yn dweud bod y Rheoliadau Benthyciadau Myfyrwyr fel ag y maent ar hyn o bryd yn gwahardd myfyrwyr sydd â gradd anrhydedd eisoes rhag gwneud cais am fenthyciad myfyriwr ar gyfer costau byw. Dywedant fod myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd sy'n arwain yn y pen draw at gymhwyster fel meddyg, deintydd, milfeddyg, pensaer, pensaer tirlunio, dylunydd tirlunio, rheolwr tirlunio, cynllunydd trefi neu gynllunydd gwlad a thref yn cael eu heithrio o'r rheol hon. Mae'r ddeiseb yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i estyn yr eithrio uchod i gynnwys unrhyw gwrs gradd ar gyfer israddedigion sydd yn rhaganghenraid gorfodol yn ôl y gyfraith ar gyfer cymhwyso a chofrestru mewn proffesiwn arbennig.

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2007. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn am eglurhad o'r rheoliadau presennol yn ymwneud a Benthyciadau i Fyfyrwyr ac i holi ynglŷn â'r posibilrwydd o newid y rheoliadau presennol. Ymatebodd y Gweinidog ar 27 Chwefror 2008.

Ar ôl trafod yr ymateb hwn yn ei gyfarfod ar 10 Ebrill 2008, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog eto i ofyn iddi roi gwybod iddynt unwaith y caiff y rheoliadau eu cytuno. Mae'r Gweinidog wedi ymateb i'r cais erbyn hyn, ac mae hwn wedi'i atodi fel rhan o bapur PET(3) 08-08 Papur 3A.

### (iii) P-03-03-085 Meddygfeydd yn Sir y Fflint

**Geiriad y Ddeiseb**

Rydym ni feddygon ym Meddygfa'r Laurels, Meddygfa Eyton Place a Chanolfan Feddygol Allt Goch yn rhwystredig (fel yr ydych chi mae'n siŵr) oherwydd yr anawsterau a gawn wrth geisio cynnig digon o apwyntiadau ar gyfer ein cleifion.

Fel y gwyddoch, rydym wedi'n cyfyngu'n llwyr gan faint ein hadeilad ac mae gwir angen symud i safle mwy - mewn Canolfan Gofal Sylfaenol newydd os oes modd.

Mae'r cynnydd yn hyn o beth wedi dod i ben yn dilyn penodiad diweddar y Gweinidog Iechyd newydd a hoffem ddod â'n pryderon i'w sylw.

Gofynnwn i chi arwyddo'r ddeiseb hon i gefnogi'n hymdrechion i brysuro'r broses hon;

"Fel cleifion mewn Meddygfa yn Sir y Fflint, gofynnwn i'n Haelod Cynulliad, Mrs Sandy Mewies, roi pwysau ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu Canolfan Gofal Sylfaenol newydd ar fyrder"

**Cefndir**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror 2008. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn iddynt egluro'u safbwynt nhw ar y ganolfan gofal sylfaenol arfaethedig y mae'r ddeiseb yn cyfeirio ati. Mae ymateb Andrew Gunnion, Prif Weithredwr o Bwrdd Iechyd Lleol Sir Y Fflint wedi cael ei dderbyn. Trafodwyd hyn ar 10 Ebrill 2008.

Mae'r Gweinidog wedi ymateb erbyn hyn, ac mae copi o'i hymateb wedi'i gynnwys fel rhan o bapur PET(3) 08-08 Papur 3A.

### (iv) P-03-092 Ffordd Liniaru'r A465 i Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach

**Geiriad y Ddeiseb**

'Deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ffordd liniaru'r A465 i Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach, i gymryd Cerbydau Nwyddau Trwm oddi ar hen Ffordd Merthyr y tu allan i Ysgol Bryn Bach a Phentref Princetown'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Trish Law AC ar ran y deisebwyr, yn cael eu harwain gan Doug Harris.

Mae'r pwyllgor yn galw am ffordd liniaru i gymryd Cerbydau Nwyddau Trwm bant o'r hen Ffordd Merthyr.

Rhoddodd y pwyllgor ystyried i'r ddeiseb yma am y tro cyntaf ar 6 Mawrth 2008, a chlywodd dystiolaeth gan y deisebwyr ar 10 Ebrill 2008.

Ar 08 Mai 2008, aeth dau Aelod o'r Pwyllgor ar ymweliad ag ardal Bryn Bach i asesu'r sefyllfa o ran traffig a chynigion y deisebwyr. Mae adroddiad o'r ymweliad hwn wedi'i atodi fel PET(3) 08-08 Papur 3B.

### (v) P-03-093 - Aberddawan

**Geiriad y Ddeiseb**

Yr ydym ni ddeisebwyr yn galw am amodau tynnach ar lygredd o Orsaf Bŵer Aberddawan. Gofynnwn am eich cymorth i gael Asiantaeth yr Amgylchedd i fynd i'r afael â gwendidau yn ei drwydded (ddrafft) newydd ar gyfer Gorsaf Bŵer Aberddawan, fel y'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2007'

**Cefndir**

Bu'r pwyllgor yn ystyried y ddeiseb am y tro cyntaf ar 31 Ionawr 2008. Yn y cyfarfod hwnnw cytunodd y pwyllgor i ofyn am nodyn briffio gan dîm cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, a chan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, ac i ofyn am wybodaeth berthnasol gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Yn ei gyfarfod ar 10 Ebrill 2008, bu'r Pwyllgor yn ystyried y dogfennau hyn a chytunwyd i wahodd y deisebwyr i roi tystiolaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2008, bu'r Pwyllgor yn ystyried e-bost gan y prif ddeisebydd yn gofyn i'r Pwyllgor wahodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru i roi tystiolaeth. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod eisiau clywed gan y deisebydd cyn penderfynu ar wahodd unrhyw sefydliad arall.

Rhoddodd y deisebwr dystiolaeth ar 08 Mai 2008.

Mae'r Cadeirydd wedi derbyn llythyr pellach gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hwn wedi'i atodi fel rhan o PET(3) 08-08 Papur 3A.

### (vi) P-03-096: Uned Niwrolegol yng Ngogledd Cymru

**Geiriad y ddeiseb**

'At sylw:- Edwina Hart AC Gweinidog Iechyd

Gwasanaeth Llawdriniaeth Nerfol Gogledd a Chanolbarth Cymru

Merched Y Wawr Derwen a'r Cylch

Dymunwn fel trigolion y parthau uchod ddatgan ein llwyr wrthwynebiad i'r syniad o symud bob gwasanaeth Llawdriniaeth Nerfol o Ogledd Cymru i Abertawe/Caerdydd ac apeliwn arnoch unai i ddatblygu canolfan bwrpasol yn nes i Ogledd a Chanolbarth Cymru neu ganiatáu gwariant dros y ffin yn Lloegr.'

**Cefndir**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth gychwynnol i'r ddeiseb yma ar y 21 Chwefror 2008. Bu'n ystyried rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig gan y deisebwyr ar 06 Mawrth 2008.

Cytunodd y Pwyllgor i anfon y ddeiseb hon at Bwyllgor Materion Cymreig Ty'r Cyffredin i'w hystyried fel rhan o'i ymchwiliad i wasanaethau trawsffiniol.  Derbyniwyd ymateb gan y Cadeirydd, Dr Hywel Francis AS, ac mae wedi'i atodi fel rhan o'r papur  PET(3) 08-08 Paper 3A.

### (vii) P-03-100": "'Agorwch ein Cyffordd'

**Geiriad y ddeiseb**

'Annwyl Mr Ieuan Wyn Jones - Rwyf i/Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn erfyn arnoch i ailfeddwl penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gadw 'Cyffordd Tesco' Aberteifi ar gau ac i'w hailagor gyda chynllun newydd a fydd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch'

**Cefndir**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyried i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 21 Chwefror 2008. Mae wedi'i harwyddo gan dros 1450 o drigolion tref Aberteifi a'r ardal gyfagos yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ailystyried ei benderfyniad i gadw cyffordd 'Tesco' Aberteifi ar gau a'i hailagor gyda chynllun newydd a fydd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gyda'r deisebau'n mynnu:

### Bod 'Cyffordd Tesco' wedi ei lleoli ar y mynediad gogleddol i dref Aberteifi ar y ffordd osgoi.

### Yn dilyn nifer o ddamweiniau yn 2003 (rhai ohonynt yn angheuol), caewyd y gyffordd ac mae'n dal i fod ar gau 5 mlynedd yn ddiweddarach.

Mae amryw o broblemau oherwydd bod y gyffordd ar gau, yn arbennig:

Mae'n cynyddu tagfeydd traffig a phellter gyrru trwy wyro'r traffig drwy'r ganol y dref (gyda chynnydd sylweddol yn lefelau llygredd lleol o ganlyniad i hynny)

Mae cau'r mynediad o gyfeiriad y gogledd yn rhoi'r argraff bod Aberteifi 'ar gau ar gyfer busnes'

Dyma'r sefyllfa bresennol o ran y gyffordd:

Comisiynwyd astudiaeth annibynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn pwyso a mesur trefniadau eraill, a oedd yn awgrymu atebion posibl gan gynnwys goleuadau traffig, cylchfan a system gylchu

Yn gynnar y flwyddyn ddiwethaf, ysgrifennodd y Gweinidog at Gyngor Sir Ceredigion yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i gau'r gyffordd yn barhaol.

Fis Tachwedd diwethaf, addawodd y Gweinidog presennol, Ieuan Wyn Jones adolygu'r achos - arhoswn am ei farn, ond yn y cyfamser, trefnwyd y ddeiseb hon er mwyn dangos cryfder y teimladau yn yr ardal leol y dylai rhyw gamau gael eu cymryd.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am y wybodaeth ddiweddaraf o ran y cynnydd gyda'r ddeiseb hon.  Mae ymateb y Gweinidog ar gael fel rhan o PET(3) 08-08 Papur 3A.

### (Viii) P-03-103 Y Ddarpariaeth o Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Ne-ddwyrain Cymru

**Geiriad y Ddeiseb**

'Deiseb i wella Addysg Cyfrwng Cymraeg

Yr ydym ni, etholwyr siroedd Mynwy, Casnewydd a Chaerffili, yn deisebu'r Cynulliad a'r Cynghorau i sefydlu Ysgol Gyfun Gyfrwng Gymraeg newydd i wasanaethu'r siroedd.

Mae angen brys am ddarpariaeth addysg uwchradd yn yr ardal gan fod plant ar hyn o bryd yn cael eu gorfodi i oddef amseroedd teithio annerbyniol neu adael addysg cyfrwng Cymraeg yn gyfan gwbl'.

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emma Hill, Cadeirydd Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) Sir Fynwy.

Mae Ms Hill wedi darparu llythyr eglurhaol yn amlinellu'r cefndir i'w deiseb mewn mwy o fanylder. Yn gryno mae'n nodi:

Bod yr holl blant sy'n derbyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd a Sir Fynwy yn cael eu cludo mewn bysiau i Ysgol Gwynllyw yn Nhor-faen.

Nad oes unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel gyfun yn Sir Fynwy

Bod rhai plant yn teithio am hyd at ddwy awr bob ffordd er mwyn cael addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae'r deisebwyr eisiau'r 'Cynulliad Cenedlaethol' gynorthwyo 'Awdurdodau Sir Fynwy' i ddatrys y broblem hon.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyried i'r ddeiseb am y tro cyntaf ar 6 Mawrth 2008. Clywodd dystiolaeth gan y deisebwyr ar 10 Ebrill 2008. Yn dilyn y cyfarfod hwn penderfynodd ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r awdurdodau lleol perthnasol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen wedi ymateb fel yr awdurdod cydgysylltu, ac mae'r Gweinidog hefyd wedi ymateb. Mae copïau o'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys fel rhan o'r papur PET(3) 08-08 Papur 3A.

**(ix) P-03-110/111 Uned Llawfeddygol y Fron ac Ysbytai Gogledd Cymru**

**Geiriad y Deiseb**

'Rydym yn pwyso i berthynas gogledd Cymru ac ysbytai yn Lerpwl barhau a gwrthwynebwn ganoli yng Nghaerdydd ac Abertawe.'

**'**Gwrthwynebwn symud Uned Lawfeddygol y Fron o Landudno'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mike German ar ran y deisebwyr, dan arweiniad Cyng. Mi Peristyl.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y deisebau hyn am y tro cyntaf ar 10 Ebrill 2008. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn iddi ymateb i bryderon y deisebwyr.

Mae ymateb y Gweinidog wedi'i atodi fel rhan o bapur PET(3) 08-08 Papur 3A.